

Ar Ddydd Mawrth, 20fed Ebrill, 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price, Mrs K Walker; Melvyn Evans; D Jones; D Sheppard, DM Hughes; Trefor Davies a'r cler

2746 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cyng. D R Morgan a Tegwyn Lewis

2747 **Materion Personol:** Dim

2748 **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol:** Dim

2749 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-
Cofnod 2729: Materion Priffyrdd – Trefeurig: Ni chafwyd ymateb gan Adran Briffyrdd Ceredigion i'r materion amrywiol a godwyd gyda nhw, ond nodwyd bod gwaith atgyweirio'n digwydd ar y ffordd rhwng yr Hen Ficerdy ac IBERS

Y Comisiwn Coedwigaeth: Mewn ymateb i gais y Cyngor, mae'r canghennau oedd yn crogi dros y ffordd ger Cwrt Villa, Penrhynoch wedi'u torri nôl lle roedd angen.

Parcio, Maeseilo Penrhynoch: Derbyniwyd adroddiadau pellach ynghylch cerbydau'n cael eu parcio'n rhy agos at y gornel ar ochr orllewinol y fynedfa i'r ystâd. PENDERFYNWYD cysylltu â'r Heddlu eto a gwahodd y Swyddog Cymunedol i fynychu cyfarfod

2750 **Adroddiadau o Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor:**

Cyfarfod Ardal - Un Llais Cymru: Mynychodd y Cyng. K Walker Gyfarfod Un Llais Cymru yn Aberaeron ar 8 Ebrill, 2010 a rhoddodd adroddiad cynhwysfawr ar y materion a drafodwyd, gan gynnwys cynigion i ymestyn cynlluniau partneriaeth rhwng Cyngorau Sir a Chyngorau Chymuned, a ffyrdd posib o ariannu'r cynlluniau hyn.

(Airtricity) - Cyfarfod Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Nant y Moch: Cynrychiolodd y Cyng. K. Walker y Cyngor yn y Cyfarfod hwn yn Nhalybont ar 15 Ebrill 2010. Yn ei hadroddiad nododd fod oedi wedi digwydd gyda golwg ar gyflwyno'r cais cynllunio ar gyfer y cynllun. Mae'r ymgeiswyr (SSE Renewables) wedi'u cynghori gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith i ymgynghori'n ehangach â chymunedau.

Corff Llywodraethu Ysgol Penrhynoch: Mynychodd y Cyng. DM Hughes, cynrychiolydd y Cyngor, gyfarfod yn yr ysgol heddiw, 20 Ebrill. Adroddodd fod y broblem o oryrru yng nghyffiniau'r ysgol yn peri pryder i'r Corff Llywodraethu, a byddent unwaith eto'n dwyn sylw'r Heddlu at y mater. Mater arall a godwyd oedd diogelwch y plant a'r oedolion oedd yn cerdded gyda nhw i'r ysgol o ochr uchaf pentref. O ddiwedd y llwybr troed ar ochr ddwyreiniol y Bwthyn, rhaid iddynt gerdded ar hyd darn cul o'r ffordd lle mae'r traffig yn drwm, nes iddynt gyrraedd mynedfa'r Llywybr Diogel i'r Ysgol trwy'r Caeau Chwarae. PENDERFYNWYD gofyn i'r Adran Briffyrdd pryd maen nhw'n disgwyl gweithredu Cam 2 o'r cynllun Llywybr Diogel i'r Ysgol.

Cyfeillion Cartref Tregerddan: Adroddodd y Cyng. G Price fod barbeciw wedi'i drefnu i godi arian ar gyfer y Cartref ar 18 Mehefin.

Roedd ymateb y Cyngor i ohebiaeth a doqfennau a dderbyniwyd fel a ganlyn:

2751 **Ymateb gan Un Llais Cymru i Adolygiad o'r System Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:** Fe'i trafodwyd, yna PENDERFYNWYD ei nodi a'i dderbyn.

2752 **Comisiwn Cynllunio Seilwaith ynghylch y Datblygiad Ynni arfaethedig yn Nant y Moch:** Gwahoddiad i'r Cyngor, fel corff ymgynghorol, i roi gwybod i'r Comisiwn pa wybodaeth ddylai SSE Renewables ei darparu yn eu Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y prosiect ym marn y Cyngor. PENDERFYNWYD y bydd Y Cyng. R Owen yn paratoi ymateb drafft.

2753 **Cyfarfod Dyranid Anheddau CDLI Ceredigion:** PENDERFYNWYD y bydd Y Cyng. Owen a K Walker yn mynychu'r Cyfarfod yn Adeilad Newydd Ceredigion, Aberystwyth ar 13 Mai 2010

2754 **Llefydd parcio ychwanegol - Tan y Berth, Penrhynoch:** Hysbysiad gan Tai Ceredigion bod y safle a glustnodwyd gan y trigolion ar gyfer llefydd parcio ychwanegol yn dal i fod yn berchen i Geredigion. PENDERFYNWYD cysylltu â Cheredigion eto.

2755 **Adroddiad i'r Wasg:** Cais gan Bwyllgor Neuadd y Penrhyn i egluro datganiad i'r wasg ynghylch Grŵp Meithrin Trefeurig. PENDERFYNWYD y bydd Y Cyng. R Owen yn cynnwys nodyn yn y datganiad nesaf i'r wasg yn esbonio'r camddealltwriaeth.

2756 **Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel:** Cyngor gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel ar warchod a gofalu am Gofebau Rhyfel. PENDERFYNWYD nodi'r cyngor; cymryd a ffeilio set newydd o luniau o'r gofeb ac ystyried ceisio gwybodaeth ynghylch y protocol ar gyfer cynnwys enwau ar y gofeb.

- 2757 **Cymdeithas Mynyddoedd Cambria:** Cynnig i ddarparu Siaradwr i drafod amcanion y Gymdeithas gyda'r Cyngor. PENDERFYNWYD gwahodd Siaradwr i gyfarfod mis Mehefin.
- 2758 **Grŵp 60+ Canolfan Gymunedol Trefeurig:** Gwahoddiad i'r Cyngor i fynychu dadorchuddiad o furlun Cymunedol yn Hen Ysgol Trefeurig ar 21 Mai 2010. PENDERFYNWYD ei dderbyn.

Materion Ariannol

- 2759 **Cyfriflen 31 Mawrth 2010:** Dosbarthwyd crynodeb o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2010. Mae'n dangos balans agoriadol o £2,556; derbyniadau gwerth £11,933 a gwariant o £11,432, gan adael balans o £3,057 i'w ddwyn ymlaen. Mae hyn yn cynnwys y gronfa wrth gefn o £1,500.
Cadarnheir y ffigyrau hyn yn Natganiad Cysoni'r banc ar 31.03.10
Gosodwyd yr holl ddogfennau perthnasol gerbron y Cyngor; cawsant eu gwirio a'u cadarnhau ac arwyddodd y Cadeirydd, Y Cyng. R Owen y Gyfriflen a Datganiad Cysoni'r Banc.
- 2760 **Disgwylir dogfennau Archwiliad Blynnyddol 2009/10 gan yr Archwilwyr Allanol.** Bydd yn rhain yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Cyngor yng nghyfarfod mis Mai.
- 2761 **Adolygu ac Adnewyddu Yswiriant y Cyngor:** Derbyniwyd hysbysiad oddi wrth Yswirwyr y Cyngor, Allianz Plc bod y gwaith o weinyddu Polisiâu Cyngorau Lleol wedi'i drosglwyddo i Aon Ltd yng Nghaerlŷr.
Y premiwm a ddyfynnwyd gan Aon ar gyfer adnewyddu'r polisi yw £1,076.21. Cynnydd o 5% ar un llynedd. Adolygwyd y ddogfen yswiriant yn fanwl a PHENDERFYNWYD gwneud ychydig o fân newidiadau cyn derbyn; ychwanegu dau hysbysfwrdd newydd a pheidio â chynyddu yswiriant y gofeb a'r rheiliau eleni. Y dyddiad adnewyddu yw 1af Mehefin 2010.
Nodwyd bod Allianz wedi cynyddu'r Yswiriant Ffyddlondeb i £16,500 o 1 Mai 2010. Ni chodwyd tâl ychwanegol.
- 2762 **Cronfa Twf Mentrau Cymdeithasol:** Manylion Cronfa grantiau newydd. PENDERFYNWYD rhoi cyhoeddusrwydd iddi.
- 2763 **Byrddau Dehongli yng Nghwmsymlog:** Dyfynbris am dynnu'r panel daeareg a gosod un newydd yn ei le, a thynnu ac ail-osod y panel botaneg yn ddiogel. £70. PENDERFYNWYD ei dderbyn.
- 2764 **Neuadd y Penrhyn:** Rhybudd ynghylch cynnydd yn y taliadau ar gyfer rhentu ystafell yn y Neuadd, wedi'i ôl-ddyddio i Fedi 2009 a chais i'r Cyngor dalu £8 yn ychwanegol yn 2010/11 i gwrdd â'r diffyg.

Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol:

- 2764 **Linda Griffiths- Cyfieithu Mawrth 2010: £42.82** Siec 985
- 2765 **Alun Hughes – gosod 2 hysbysfwrdd: £105** Siec 986
- 2766 **CYNLLUNIO: Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**
A100049 4 Glanffrwd, Penrhyncoch: estyniadau - rhoddwyd caniatâd
A100069 Trysor, Cefnllwyd: ystafell wydr newydd - rhoddwyd caniatâd
A090792 IBERS, Penrhyncoch: Adeilad newydd a gweithfeydd cysylltiol - rhoddwyd caniatâd
A090873 Codi sied Amaethyddol i'r gorllewin o Gwelfor. Cyfarfod safle i'w gynnal ar 27.04.10. Cytunodd Y Cyng. DM Hughes a K Walker i'w fynychu
Roedd sylwadau'r Cyngor ar geisiadau cynllunio fel a ganlyn:
- 2767 **A100170 Estyniad deulawr yn 104 Ger y llan, Penrhyncoch:** Dim sylwadau
A100181 Codi annedd ar dir ger Y Gelli, Penrhyncoch: Mynegodd y Cyngor bryderon ynghylch diogelwch yn sgil y bwriad i ledaenu'r ffordd ger y safle heb dynnu cornel ddwyreiniol y llain, sy'n gwneud hi'n anodd i yrwyr weld ar hyd y ffordd gul, brysur yma. Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle.
- 2768 **Cynhelir y Cyfarfod nesaf, sef y CCB ar 18 Mai, 2010 ym Mhenrhyncoch; lleoliad i'w gadarnhau. Cynhelir Cyfarfod Agored am 7.00pm cyn y CCB**
- 2769 **Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
 Tyllau ar ffordd Llwyn Prysg a ger Llwynderw, Penbontrhydybeddau
 Mwd a dail angen eu clirio oddi ar ffordd Penbontrhydybeddau a Chwmsymlog

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00pm.